BARHAM, DIANA (1763 - 1823), arglwyddes, noddwraig crefydd

Enw: Diana Barham
Dyddiad geni: 1763
Dyddiad marw: 1823
Priod: Gerard Noel
Plentyn: Charles Gordon Noel
Rhiant: Margaret Middleton (née Gambier)
Rhiant: Charles Middleton
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: arglwyddes, noddwraig crefydd
Maes gweithgaredd: Dyngarwch; Crefydd; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Unig ferch Charles Middleton, Arglwydd Barham, a Margaret ei briod, Barham Court, Kent. Priododd, yn 1780, Syr Gerard Noel.

Yr oedd o ysbryd efengylaidd. Ymsefydlodd yng Ng yr, Morgannwg, yn 1813, a chyda chymorth y Methodistiaid sefydlodd achosion crefyddol a chodi capeli iddynt yn rhannau Seisnig G yr. Ni bu'r cydweithrediad rhyngddi â'r Methodistiaid yn hapus bob amser, ond cafodd gefnogaeth yr Annibynwyr hwythau.

Bu farw 12 Ebrill 1823, yn Fairy Hill, G yr. Ymhen rhai blynyddoedd ar ôl ei marw cyflwynodd ei mab Charles, Arglwydd Barham - Arglwydd Gainsborough wedyn - y capeli i ymddiriedolwyr. O'r chwe chapel a godwyd ganddi y mae dau o hyd yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd, a'r lleill yn eiddo i'r Annibynwyr.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, xxxvii, 341

Burke's ... Peerage, Baronetage, and Knightage (1949), 803

The Cambrian, 19 Ebrill 1823

W. Williams, *A memoir of the life and labours of the Rev. William Griffiths, Burry Green, Gower* (1863)

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 435-9

Alicia Gower-Jones, gol., *Gower memories of William Griffiths* (Llandysul 1957), (hunangofiant WilliamGriffiths, 1788-1861)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Diana Noel

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 46502386

Wikidata: Q18559715

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Finrannu